



**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL**  
**RHONDDA CYNON TAF**  
**COUNTY BOROUGH COUNCIL**

**PWYLLGOR TRWYDDEDU**

**YN GWEITHREDU YN UNOL Â'I**  
**SWYDDOGAETH O DAN**  
**DDEDDF TRWYDDEDU 2003**

Dolen gyswllt: Hannah Williams - Uned Busnes y Cyngor - Gwasanaethau Llywodraethol (Rhif ffôn (01443 424062)

Bydd cyfarfod o'r Pwyllgor Trwyddedu, (yn gweithredu yn unol â'i swyddogaeth o dan Ddeddf Trwyddedu 2003) yn cael ei gynnal yn **(Siambr y Cyngor, Y Pafiliynau, Parc Hen Lofa'r Cambrian, Cwm Clydach, Tonypanyd CF40 2XX)** ar **DYDD MAWRTH, 10FED MEDI, 2019** am **4.30 PM**.

MAE MODD I AELODAU O'R CYHOEDD OFYN I ANNERCH Y PWYLLGOR YN YSTOD CYFARFOD SY'N YMWNEUD Â'R MATER SYDD WEDI'I NODI. RYDYN NI'N GOFYN EICH BOD CHI'N RHOI GWYBOD AM EICH BWRIAD I SIARAD DRWY GYSYLLTU AG UWCHADRAN TRWYDDEDU, TŶ ELÂI, DWYRAIN DINAS ISAF, TREWILIAM, CF40 1NY ERBYN **5PM AR Dydd Gwener, 6 Medi 2019**, GAN NODI A FYDDWCH CHI'N SIARAD YN GYMRAEG NEU'N SAESNEG.

**MATERION I'W TRAFOD**

**1. DATGAN BUDDIANT**

Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan Aelodau, yn unol â gofynion y Cod Ymddygiad.

**Noder:**

1. Mae gofyn i Aelodau ddatgan rhif a phwnc yr agendwm mae eu buddiant yn ymwneud ag ef a mynegi natur y buddiant personol hwnnw; a
2. Lle bo Aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant sy'n rhagfarnu, mae **rhaid** iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael.

**2. DEDDF HAWLIAU DYNOL 1998 A'R DDEDDF TROSEDD AC ANHREFN**

I'w nodi: Pan fydd Aelodau'n ystyried y materion trwyddedu a chofrestru sydd ger eu bron, mae dyletswydd arnyn nhw i beidio â gweithredu mewn modd sy'n anghydnaws â'r confensiwn ar Hawliau Dynol a'r Ddeddf Trosedd ac Anhrefn.

**3. COFNODION**

Cymeradwyo cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Trwyddedu (yn gweithredu yn unol â'i swyddogaeth o dan ddeddf Trwyddedu 2003) a gynhaliwyd 11 Mehefin 2019 a 29 Gorffennaf 2019.

5 - 10

**ADRODDIAD Y CYFARWYDDWR, IECHYD Y CYHOEDD, AMDDIFFYN & CYMUNEDOL GWASANAETHAU**

**4. ADOLYGIAD O DDEDDF TRWYDDEDU 2003 AC O DDEDDF GAMBLO 2005**

11 – 52

**5. ADOLYGU DATGANIAD POLISI TRWYDDEDU 2020-2025**

53 – 112

**6. TRAFOD CADARNHAU'R CYNNIG ISOD YN BENDERFYNIAD:-**

“Bod y cyfarfod hwn yn cadw aelodau o'r wasg ac aelodau o'r cyhoedd allan o ystafell y cyfarfod, dan Adran 100A(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd), yn ystod trafod yr agendwm nesaf, ar y sail y byddai'n debygol o olygu datgelu gwybodaeth eithriedig yn ôl diffiniad paragraff 13 o Ran 4 o Atodlen 12A o'r Ddeddf.”

**ADRODDIAD Y CYFARWYDDWR, IECHYD Y CYHOEDD, AMDDIFFYN & CYMUNEDOL GWASANAETHAU SY'N CYNNWYS GWYBODAETH EITHRIEDIG**

**7. TRWYDDEDAU A CHOFRESTRIADAU A GYHOEDDWDYD O DAN DDARPARIAETH PWERAU DIRPRWYEDIG AR GYFER Y CYFNOD: 27.05.19 - 25.08.19**

- (i) Trwyddedau Personol
- (ii) Trwyddedau Safle

113 - 134

**8. BUSNES BRYD**

Trafod unrhyw faterion sydd, yn ôl doethineb y Cadeirydd, yn faterion brys yng ngoleuni amgylchiadau arbennig.

**Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu**

## **Cylchrediad:-**

### **Aelodau o'r Pwyllgor Trwyddedu:**

Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Trwyddedu  
(Y Cynghorydd A Fox ac Y Cynghorydd D Williams)  
Y Cynghorydd S Bradwick, Y Cynghorydd S Powderhill, Y Cynghorydd E Webster,  
Y Cynghorydd T Williams, Y Cynghorydd W Lewis, Y Cynghorydd S Morgans,  
Y Cynghorydd A Cox, Y Cynghorydd P Howe ac Y Cynghorydd L Jones

Paul Mee, Cyfarwyddwr – Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, a Gwasanaethau'r Gymuned.  
Christian Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democraidaidd a  
Chyfathrebu  
Louise Davies, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Diogelwch y Cyhoedd  
Paul Nicholls, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Cyfreithiol  
Rhian Hope, Rheolwr Gwasanaeth Trwyddedu a Diogelu Iechyd  
Martyn Owen, Rheolwr trwyddedu Cynorthwyol